Yn bresennol:

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Simon Pickering (Cadeirydd) | Llywodraeth Cymru – Pennaeth Tirweddau a Hamdden Awyr Agored |
| Jont Bulbeck | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Eifion Jones (BBNPA) | Cynrychioli y 3 o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a 5 AHNEau |
| Adrian Walls | Gweithgor Rheolwyr Hawliau Tramwy Cymru |

Cymorth technegol ac ysgrifenyddol:

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Helen Lewis | Llywodraeth Cymru – Tirweddau a Hamdden Awyr Agored |
| Sarah Smith | Llywodraeth Cymru – Tirweddau a Hamdden Awyr Agored |
| Joe Roberts | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Jayne Carter | Cyfoeth Naturiol Cymru |

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Ben Sears | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| Prif benderfyniadau a materion yn codi | Perchennog |
|---|---|
| **Nodiadau a chamau yn codi o'r cyfarfod blaenorol** | |
| 1. Cytunwyd ar y cofnodion. | |
| 2. **Cam gweithredu 5**: Dylai LIC sicrhau bod rhywfaint o gyllid ar gael ar gyfer ymchwil i ymddygiad (yn amodol ar effaith covid19 ar y gyllideb). CNC i anfon cynigion ac amcangyfrif o'r gost ar gyfer y gwaith. | Joe |
| 3. **Cam gweithredu 6**. Adolygiad cyfreithwyr LIC o ba adrannau o Ran 2 Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy sydd wedi'u deddfu yng | Helen |

| | |
|---|---|
| Nghymru sydd wedi gweld oedi oherwydd covid19. HL i edrych i mewn i hyn. | |
| **Cynigion yr Opsiwn**<br><br>4. **(a) Cyfarfodydd Grwpiau Arbenigol**: Aeth cyfarfodydd Grwpiau Arbenigol(GA) 1 a 2 ymlaen fel y bwriadwyd; Cafodd cyfarfod GA3 ei ganslo oherwydd Covid19 a'i ddisodli gan gyfarfodydd skype ar 2 a'r 6 Ebrill.<br>5. **(a) Cyfarfodydd Grwpiau Arbenigol:** EJ i wneud ymholiadau i ddirprwy dros dro yr Awdurdod Parciau Cenedlaethol fod yn bresennol yn lle cynrychiolydd y GA sydd ddim ar gael ar hyn o bryd.<br>6. (**b) Papur Cynnig Opsiynau**: caiff pob papur ei rannu yn ddau ran diwygio (a) a (b), gyda 3 opsiwn ar gyfer pob newid.<br>7. **b) Papur Cynnig Opsiynau:** AW yn argymell cynnwys rhestr wedi'i atodi o'r rhai sy'n bresennol i ddangos unigolion arbenigol ar gyfer pob papur.<br>8. **b) Papur Cynnig Opsiynau:** JR i weithio gydag Alison Roberts (CNC) i ddatblygu cynigion ar gyfer sut y gellid datblygu cod mynediad statudol.<br>9. **b) Papur Cynnig Opsiynau:** LIC i gysylltu gydag Amaethyddiaeth dros daliadau Amaethyddiaeth.<br>10. **b) Papur Cynnig Opsiynau**: JB i baratoi rhestr o faterion a godwyd sy'n galw am ragor o gyngor cyfreithiol.<br>11. **b) Papur Cynnig Opsiynau** Grŵp gwirfoddoli i gynnig unrhyw sylwadau pellach i CNC erbyn diwedd y dydd 27 Ebrill.<br>12. **(c) Gwahodd sylwadau a thystiolaeth**: Papurau Opsiynau Diwygio yn cael eu dosbarthu i'r Senedd a Fforymau Mynediad Lleol gyda galwad am dystiolaeth, gan gynnwys rhybudd i egluro eu bod yn gynigion drafft i lywio datblygiadau, yn hytrach na dogfennau polisi ARAG.<br>13. (**c) Gwahodd sylwadau a thystiolaeth**: Bydd unrhyw opsiynau newydd sy'n cael eu cynnig yn ystod yr adborth yn cael eu hadolygu gan y grŵp llywio ac ystyrir a oes angen i'r Grwpiau Arbenigol edrych ymhellach arnynt. | Eifion<br><br>NRW<br><br>Joe<br><br>SP/HL/SS<br>Jont<br>All |
| **Newidiadau i Amserlen y Rhaglen**<br><br>14. Papurau Opsiynau Diwygio i gael eu hanfon at y Senedd a'r Fforymau Mynediad Lleol ar ddechrau Mai gyda dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 3 Gorffennaf. Y trydydd cyfarfod Grŵp Arbenigol wedi'u gohirio tan ganol mis Medi gyda'r pedwerydd cyfarfod i'w gynnal ym mis Ionawr 2021. Ar hyn o bryd credir bod modd rheoli'r oedi oherwydd covid19 o fewn y rhaglen wreiddiol heb gael effaith ar y dyddiad terfynol. | |

| | |
|---|---|
| 15. Oherwydd bod y cyfnod cyfieithu yn hwy oherwydd covid19 (oddeutu 3 wythnos ar gyfer CNC), papurau i gael eu cyhoeddi yn Saesneg yn gyntaf ac yna'r fersiwn Cymraeg cyn gynted ag y daw y cyfieithiad yn ôl.  HL i holi a fyddai'r amser cyfieithu yn gynt. | Helen |